

BWRDD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU**COFNODION Y CYFARFOD AR DDYDD MERCHER 27 A DYDD IAU 28 IONAWR 2021****Aelodau'n bresennol:**

Lindsay Foyster	Cadeirydd ac aelod anweithredol
Adrian Crompton	Prif Weithredwr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru
Alison Gerrard	Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol
Amanda Hughes	Aelod a etholwyd o blith y cyflogeion
Anne Beegan	Aelod a etholwyd o blith y cyflogeion
David Francis	Aelod anweithredol ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol
Elinor Gwynn	Aelod anweithredol
Ian Rees	Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg
Kevin Thomas	Aelod a benodwyd o blith y cyflogeion a Chyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol (CGGC)

Ymddiheuriadau:

Dim

Hefyd yn bresennol:

Katherine Drysdale	Arbenigwr y Gyfraith a Moeseg (cofnodion)
Lee Cartwright	Cyfarwyddwr Profiad Cyflogeion, BMG Research (eitem 3)
Amanda Jenkins	Arbenigwr Cynllunio ac Adrodd (eitemau 4, 8 a 9)
Angharad Clemens	Hyfforddai Archwilio ac aelod o'r UDG (eitem 3)
Ann-Marie Harkin	Cyfarwyddwr Archwilio ac aelod o'r UDG (eitem 3)
Clare James	Rheolwr Archwilio ac aelod o'r UDG (eitem 3)
Laurie Davies	Pennaeth Gwasanaethau Busnes (eitem 7)
Lisa Williams	Rheolwr Archwilio a Chadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Teithio a Chynhaliaeth (eitem 12)
Nicola Evans	Pennaeth Cyllid (eitemau 4 ac 8)
Siobhan Cole	Pennaeth Adnoddau Dynol (eitem 3)
Steven O'Donoghue	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol (eitem 12)

Yn arsylwi:

Sabel Wiliam	Hyfforddai Archwilio
Morgan Burchell	Hyfforddai Archwilio (eitemau 1, 2, 3 a 4)

Eitem	Agenda
Rhan 1: materion rhagarweiniol	
1	Croeso'r Cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldeb
2	Datganiadau o fuddiant
Rhan 2: trafodaeth strategol	
3	Arolwg Staff 2020: cyflwyno'r canlyniadau gan BMG ac ymateb y rheolwyr
4	Briffio ar y strategaeth ffioedd ac amcangyfrifon
Rhan 3: ar gyfer trafodaeth	
5	Diweddariad gan yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr
6	Diweddariad gan y Cadeirydd
7	Strategaeth ystadau
8	Adolygiad o berfformiad gan gynnwys yr adroddiad risg strategol a'r adroddiad cyllid
9	Y cynllun blynyddol drafft 2021-22
Rhan 4: ar gyfer cymeradwyaeth	
10	Cofnodion y cyfarfod ar 24 a 25 Tachwedd 2020 ac unrhyw faterion yn codi (gan ddefnyddio'r offeryn tracio camau gweithredu)
11	Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg
12	Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol
13	Adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd
14	Rhaglen waith y Bwrdd 2020-21
15	Unrhyw fater arall
16	Dyddiad y cyfarfod nesaf: 17 a 18 Mawrth 2021

Eitem	Cofnodion	Cam Gweith-redu
Rhan 1: materion rhagarweiniol		
1.	Croeso'r Cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldeb	
1.1	Fe estynnodd y Cadeirydd groeso i'r aelodau a'r rhai a oedd hefyd yn bresennol; ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.	
1.2	Byddai Elinor Gwynn yn llunio'r blog o'r cyfarfod.	EG
2.	Datganiadau o fuddiant	
2.1	Datganodd Amanda Hughes, Anne Beegan a Kevin Thomas fuddiannau yn eitem 11 (Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol).	
Rhan 2: trafodaeth strategol		
3.	Arolwg Staff 2020	
3.1	Cafodd y Bwrdd gyflwyniad ar ganlyniadau'r Arolwg Pobl gan BMG Research.	
3.2	Fe wnaeth y Pennaeth Adnoddau Dynol gyflwyno ymateb y rheolwyr i ganlyniadau'r Arolwg Pobl ac amlinellu'r gwaith a oedd yn mynd rhagddo ac fe wnaeth hefyd gynnig mynd i'r afael â'r meysydd ar gyfer gwella a	

Eitem	Cofnodion	Cam Gweith-redu
	nodwyd o ganlyniadau'r arolwg. Eglurodd y dull o flaenoriaethu meysydd gwella allweddol dysgu a datblygu a rheoli newid, gan gadw briff gwyllo ar faterion sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â chyflog a buddion a rheoli perfformiad.	
3.3	<p>Bu'r Bwrdd yn trafod materion a oedd yn codi o'r arolwg ac ymateb y rheolwyr gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yr angen am gyfathrebu clir i gyfeirio staff at yr ystod lawn o hyfforddiant sydd ar gael; • sut y gallai cyfleoedd ar gyfer datblygiad gyrfa gael eu datblygu mewn sefydliad bach â throsiant staff isel; • effaith cyfnod estynedig o weithio o bell ar y gallu i ddarparu profiadau dysgu hollbwysig trwy weithio fel tîm; • effaith newid ar staff a phwysau prosiectau newid ar gynllunio adnoddau; • rheoli perfformiad, yn arbennig cyflawni rheolaeth gyson ar berfformiad gwael; ac • effaith yr adolygiad o deithio a chynhaliaeth ar staff a'u canfyddiad am y pecyn cyflog a buddion. 	
3.4	<p>Fe wnaeth y Bwrdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gytuno bod dadansoddiad y rheolwyr o'r canlyniadau'n briodol; • cymeradwyo'r modd y blaenoriaethwyd gweithgareddau i fynd i'r afael â meysydd ar gyfer gwella; • annog y rheolwyr i ystyried sut i ganfod, ac yna cyfleu, effaith camau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r arolwg; • cytuno y byddai'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol yn monitro llwyddiant gweithgarwch mewn perthynas â Dysgu a Datblygu gyda golwg ar ddarparu sicrwydd ar gyfer y Bwrdd; a • chytuno y byddai'n ystyried y sylwadau a wnaed am y Bwrdd a'i arweinyddiaeth fel rhan o'r hunanasesiad o effeithiolrwydd. 	PCA ac AD
4.	Briffio ar y strategaeth ffioedd ac amcangyfrifon	
4.1	Fe gyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol bapur yn amlinellu cynnig a llinell amser ar gyfer adolygiad o gyllid Archwilio Cymru a fyddai'n goleuo datblygiad strategaeth ariannu addas ar gyfer y diben sy'n gyson â'r cynllun ariannol tymor canolig.	
4.2	Rhoddodd y Pennaeth Cyllid gyflwyniad byr lle gwnaeth amlinellu'r model ariannu cyfredol, cynnig yr amcanion ar gyfer yr adolygiad ac awgrymu meysydd o ran y cyllid a allai fod o fewn cwmpas yr adolygiad.	
4.3	<p>Cytunodd y Bwrdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ar yr amcan i ddatblygu strategaeth ariannu syml, dryloyw, hyblyg a chynaliadwy; • ar y llinell amser ar gyfer yr adolygiad; • y byddai'r adolygiad yn cwmpasu pob maes o ran cyllid, heblaw am y rhai na ellid eu newid am resymau deddfwriaethol a fyddai'n cael eu nodi yn yr adolygiad, yn amodol ar arweiniad eglur gan y rheolwyr ar y meysydd ffocws; ac • y byddai'r adolygiad yn archwilio sut y caiff costau eu dyrannu ac yn rhoi ystyriaeth i feincnodi ffioedd. 	

Eitem	Cofnodion	Cam Gweith-redu
4.4	I ategu dealltwriaeth aelodau am ffioedd a chyllid, byddai Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol yn trefnu bod adnoddau perthnasol yn cael eu gosod yn llyfrgell gyfeirio'r Bwrdd a bod sesiwn wybodaeth yn cael ei darparu ar gyfer aelodau.	CGGC
5.	Diweddariad gan yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr	
5.1	<p>Fe gyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr ei adroddiad ysgrifenedig ac amlygodd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ei fod wedi anfon llythyr at Brif Weithredwyr yn egluro ei ddull o reoli ei waith yn ystod y pandemig parhaus; • bod Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at gyrff llywodraeth leol yng Nghymru i gadarnhau y byddai graddfeydd amser estynedig ar gyfer paratoi cyfrifon drafft a chyhoeddi cyfrifon archwiledig terfynol yn cael eu darparu eleni hefyd; • bod y broses o ddewis rhestr hir o ymgeiswyr posibl ar gyfer rôl y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio wrthi'n mynd rhagddi a, phe bai ymgeiswyr addas yn cael eu hadnabod, y byddai cyfweiliadau'n cael eu cynnal yn ystod mis Chwefror; • bod saith cais wedi dod i law am ymadawriad gwirfoddol ac roedd achosion busnes yn cael eu datblygu; a • bod cynnig i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol ar gyfer 2021-22 trwy estyn y contract cyfredol yn cael ei baratoi gan PwC ac y byddai hwn yn cael ei adolygu yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i sicrhau bod y cynnig yn ymgorffori gwaith digonol i ddarparu barn archwilio gadarn gan hefyd ddarparu gwasanaeth sy'n rhoi gwerth am arian. 	
5.2	Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr ddiweddariad llafar i'r Bwrdd ar absenoldeb a oedd yn gysylltiedig â Covid a chynlluniau i ddychwelyd i'r swyddfa a fyddai'n dilyn dull seiliedig ar flaenoriaethau. Nododd y Bwrdd fod y rheolwyr yn monitro llesiant staff ac yn ystyried gofynion ar gyfer cymorth fesul achos unigol. Gofynnodd y Bwrdd i'r Prif Weithredwr gynnwys diweddariadau pellach yn ei adroddiadau i'r Bwrdd yn y dyfodol.	ACC
5.3	<p>Cafodd y Bwrdd drafodaeth fer am y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • goblygiadau posibl sefydlu cydbwyllgorau corfforedig (dan y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)) ar gyfer gwaith yr Archwilydd Cyffredinol; • cyfleu ymrwymiad y Bwrdd i ansawdd archwilio – byddai Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol yn trefnu i ddiweddariad gael ei ddarparu ar gyfer staff am waith y Pwyllgor Ansawdd Archwilio a rôl y Cadeirydd fel cyswllt y Bwrdd ar gyfer ansawdd; • seiberddiogelwch, gan nodi rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg o ran cynnal adolygiad blynyddol i ddarparu sicrwydd ar gyfer y Bwrdd, a fyddai'n cael ei ategu gan ddiweddariadau cyfnodol trwy adroddiad y Prif Weithredwr. 	CGGC
5.4	Mewn ymateb i gwestiwn ar y Rhaglen Newid, dynododd ACC y byddai'n trefnu i ddiweddariadau ar gynnydd gael eu hamlygu ar offeryn gwirio'r	AGW

Eitem	Cofnodion	Cam Gweith-redu
	portffolio newid fel bod datblygiadau rhwng cyfarfodydd yn gallu cael eu tracio'n rhwydd.	
6.	Diweddariad gan y Cadeirydd	
6.1	Cyflwynodd y Cadeirydd ei diweddariad ysgrifenedig i'r Bwrdd, gan amlygu y byddai'n gweithio gydag Ysgrifennydd y Bwrdd i ddatblygu proses fwy eglur ar gyfer gwneud penderfyniadau'n rhithwir a fyddai'n ymgorffori cyngor i awduron papurau.	LF/KD
7.	Trafodaeth am y strategaeth ystadau	
7.1	Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Busnes bapur a oedd yn nodi cynnig i fireinio'r strategaeth Ystadau i adlewyrchu newidiadau yn yr amgylchedd gweithio a gweithredu ers cymeradwyo'r strategaeth yn 2019.	
7.2	Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo: <ul style="list-style-type: none"> a) arweiniad yr UDG ar gyfer strategaeth eglur a chryno; b) y weledigaeth, y genhadaeth a'r nodau, yn amodol ar fân ddiwygiadau: <ul style="list-style-type: none"> • er mwyn eglurder; • i adlewyrchu'r elfennau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol o gynaliadwyedd; ac • i ymgorffori cyfeiriad at gydnerthedd; c) y cynnig bod nifer lai o opsiynau dichonadwy'n cael eu hystyried ar gyfer gweithleoedd Archwilio Cymru yn y dyfodol; d) yr egwyddorion ar gyfer asesu'r opsiynau a ddylai ganolbwyntio ar: <ul style="list-style-type: none"> • gost (swyddfeydd a chostau eraill megis teithio); • diwallu anghenion busnes gan gynorthwyo staff i fod yn gynhyrchiol a chyflawni archwiliadau o ansawdd da; ac • effaith amgylcheddol. 	
7.3	Cydnabu'r Bwrdd, er y byddai swyddfa yng Nghaerdydd yn darparu canolfan ymarferol yn agos at y Senedd ar gyfer ACC, nad oedd hyn yn gwbl ofynnol ac y dylid asesu pob opsiwn ymarferol.	
7.4	Rhoddodd y Bwrdd gymeradwyaeth i estyn prydles swyddfa Penllergaer fel ei bod yn cyd-fynd â diwedd prydles Caerdydd fel y gallai'r opsiynau ar gyfer De Cymru gael eu hystyried mewn modd holistaidd.	
8.	Adolygiad o berfformiad gan gynnwys yr adroddiad risg strategol a'r adroddiad cyllid	
8.1	Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol bapur a oedd yn darparu crynodeb ariannol ynghyd â diweddariad ar y gofrestr risgiau strategol. Amlygodd y gwarged rhagamcanol posibl, a fyddai'n ddigon i dalu am unrhyw ymadawiadau gwirfoddol. Nododd y Bwrdd ei arweiniad cynharach y byddai'r cyllid ychwanegol a ddarperir gan yr Amcangyfrif Atodol yn cael ei gymhwyso'n bennaf i ariannu ymadawiadau gwirfoddol, ond mai dim ond 7 cais a fu hyd yma.	
8.2	Fe wnaeth y Bwrdd drafod y gofrestr risgiau ddiwygiedig a chytuno ei fod yn fodlon ar y risgiau a oedd wedi'u cau a'u hisgyfeirio. Cafodd y Bwrdd drafodaeth fer am y risg wedi'i hisgyfeirio mewn perthynas â chapasiti Adnoddau Dynol, a fyddai'n parhau i gael ei monitro gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol.	PCA ac AD
8.3	Fe wnaeth y Bwrdd adolygu'r risgiau newydd a'r rhai a oedd wedi'u hisgyfeirio ac, yn amodol ar fân ddiwygiadau i egluro rhai disgrifiadau, fe	

Eitem	Cofnodion	Cam Gweith-redu
	gytunodd fod y gofrestr yn rhoi adlewyrchiad cywir o ddeilliannau'r adolygiadau a gynhaliwyd gan y Bwrdd a'r UDG.	
9.	Y cynllun blynyddol drafft 2021-22	
9.1	<p>Fe wnaeth Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol gyflwyno'r cynllun blynyddol drafft ar gyfer 2021-22 gan wahodd y Bwrdd i ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) cadw'r strwythur cyffredinol yn unol â'r cynllun cyfredol; b) y prif themâu ar gyfer y dadansoddiad o'n hamgylchedd gweithredu; c) meysydd ffocws ar gyfer y rhaglenni gwaith, gan gynnwys blaenoriaethau a goblygiadau o ran adnoddau; a d) targedau priodol ar gyfer y dangosyddion perfformiad allweddol. <p>Eglurodd fod y drafft wedi cael ei oleuo gan berfformiad yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol yng nghynllun blynyddol y llynedd a'i fod yn ymgorffori perfformiad o ran cyflawni'r rhaglen newid.</p>	
9.2	Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i'r cynllun drafft ac roedd yn fodlon ar strwythur y ddogfen, gan nodi y byddai'r naratif ar gyfer y rhagair yn cael ei ddatblygu i ddarparu'r cyd-destun ar gyfer corff y cynllun. Fe wnaeth y Bwrdd atgoffa Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol o'r ymrwymiad i ddarparu rhagair dwyieithog yn fersiynau Cymraeg a Saesneg yr Adroddiad.	
9.3	<p>Fe wnaeth y Bwrdd drafod yr amgylchedd gweithredu ac fe wnaeth awgrymiadau ar gyfer y cynllun i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ymgorffori ystyriaethau i gydraddoldeb / cynhwysiant i adlewyrchu'r modd yr oedd yr amgylchedd gweithredu'n effeithio ar wahanol grwpiau; • cydnabod effaith ariannol Covid-19 a chefnidir ariannol mwy hirdymor y cyni cyllidol; • cydnabod yr ymchwydd mewn gwariant cyhoeddus o ganlyniad i Covid-19 a'r goblygiadau posibl ar gyfer llywodraethu. 	
9.4	<p>Fe wnaeth Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol amlygu na chwtogwyd ar y rhaglen waith ond, mewn amgylchedd gweithredu anrhagweladwy, bod y cynllun yn adlewyrchu'r angen i fod yn hyblyg ac yn barod i addasu. Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo'r dull hwnnw ac annog y rheolwyr i ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> • defnyddio iaith fwy beiddgar, fwy uniongyrchol yn yr adroddiad; a • sut i ganfod effaith ehangach a mwy hirdymor gwaith yr Archwilydd Cyffredinol. 	
9.5	<p>Fe wnaeth Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol atgoffa'r aelodau y byddai adolygiad o'r dangosyddion perfformiad allweddol ac uchelgeisiau'n cael ei gynllunio ar gyfer rhywbryd yn ddiweddarach eleni i oleuo Cynllun Blynyddol 2022-23. Fe wnaeth y Bwrdd awgrymiadau y byddai Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol yn eu cymryd i ystyriaeth wrth adolygu'r targedau ar gyfer y dangosyddion perfformiad allweddol. Cytunodd y Bwrdd y byddai'n cynnal adolygiad o gynnydd o ran gwireddu'r uchelgeisiau strategol yn 2021 hanner ffordd drwy'r strategaeth 5 mlynedd. Byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn ychwanegu'r adolygiad at flaenraglen fusnes y Bwrdd.</p>	KD
9.6	Byddai'r Bwrdd yn cael y cynllun blynyddol drafft terfynol i'w ystyried a'i gymeradwyo ym mis Mawrth.	

Eitem	Cofnodion	Cam Gweith-redu
Rhan 4: ar gyfer cymeradwyaeth		
10.	Cofnodion y cyfarfod ar 24 a 25 Tachwedd 2020 ac unrhyw faterion yn codi (gan ddefnyddio'r offeryn tracio camau gweithredu)	
10.1	Yn amodol ar gywiriad teipograffyddol, fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir.	
10.2	Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i'r camau gweithredu a oedd yn dal heb eu cwblhau o'i gyfarfodydd blaenorol gan ddefnyddio'r offeryn tracio ac fe nododd fod Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol yn bwriadu cyflwyno argymhelliad ynghylch trefniadau cefnogi'r Bwrdd (cam gweithredu 20/029) i'r Bwrdd ym mis Mawrth.	
11.	Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg	
11.1	Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Ansawdd Adroddiad cyfarfod y Pwyllgor ar 15 Rhagfyr 2020.	
11.2	Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i argymhelliad y Pwyllgor i ailystyried methodoleg rheoli argyfwng Archwilio Cymru ac fe gytunodd y dylai Cadeirydd y Bwrdd a Chyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol ystyried yr amseriad ar gyfer adolygiad o'r fath, gan roi ystyriaeth i'r cynllun archwilio mewnol (a allai gynnwys adolygiad o barhad busnes) a'r ymarferion parhad busnes blynyddol arfaethedig.	LF / CGGC
11.3	Fe wnaeth Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wahodd barn y Bwrdd ynglŷn â moratoriwm byr ar adolygiadau sicrwydd a risg strategol gan y Pwyllgor yn y dyfodol i leddfu'r pwysau ar reolwyr. Cytunodd y Bwrdd y byddai moratoriwm am gyfarfod neu ddau'n briodol ac y byddai'n caniatáu amser i bennu testunau lle byddai adolygiad gan y Pwyllgor yn rhoi sicrwydd gwerthfawr.	
11.4	Cynhaliodd y Bwrdd drafodaeth fer am ddiben y map sicrwydd a nododd y gwahaniaeth rhwng y gofrestr risgiau strategol a'r map sicrwydd. Cytunodd Ysgrifennydd y Bwrdd i ymgorffori adolygiad o'r map sicrwydd yn rhaglen waith y Pwyllgor, i sicrhau ei fod yn rhoi adlewyrchiad priodol o'r cynllun blynyddol.	KD
11.5	Fe wnaeth y Bwrdd nodi'r materion eraill a oedd yn cael eu crynhoi yn adroddiad y Pwyllgor.	
12.	Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol	
12.1	Fe wnaeth Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol gyflwyno'r adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor ar 19 Ionawr 2021. Tynnodd sylw'r Bwrdd at argymhellion y Pwyllgor ar: <ul style="list-style-type: none"> • y strategaeth cyflog a gwobrwyo arfaethedig ar gyfer 2021-22; • yr arweiniadau a ddarparwyd ar gyfer yr adolygiad o deithio a chynhaliadau; a hefyd • yr estyniad ar y llinell amser ar gyfer yr adolygiad o deithio a chynhaliadau. 	
12.2	Cynhaliodd y Bwrdd drafodaeth fer ar ei barodrwydd i dderbyn risg trwy wro oddi wrth ganllawiau cyflog Llywodraeth Cymru yn yr hinsawdd sydd ohoni, gan gydnabod y byddai'n gallu edrych ar faterion cyflog a gwobrwyo yn eu holl agweddau o ystyried amseriad yr adolygiad o deithio a threuliau.	

Eitem	Cofnodion	Cam Gweith-redu
12.3	<p>Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i'r arweiniadau ar gyfer yr adolygiad o deithio a chynhaliadaeth a nododd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bwysigrwydd sicrwydd ar gyfer y Bwrdd a'r Archwilydd Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu ynghylch y trefniadau llywodraethu ac ymarferol ar gyfer unrhyw gynllun benthyciadau a gynigir; ac • na fyddai'r estyniad arfaethedig i'r llinell amser yn achosi oedi cyn rhoi'r trefniadau ar waith ac y byddai aelodau'n cael eu gwahodd i dod i gyfarfod ychwanegol gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol tuag at ddiwedd mis Mai i gyfrannu eu barn. 	KD
12.4	<p>Trafododd y Bwrdd gwmpas yr opsiynau ar gyfer trosglwyddo o'r cynllun teithio a chynhaliadaeth cyfredol i drefniadau newydd a goblygiadau hynny o ran costau a gofynnodd am gael costiau eglur ar gyfer yr opsiynau a gyflwynir i'w hystyried.</p>	LW
12.5	<p>Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo argymhellion y Pwyllgor a nodi'r materion eraill a oedd wedi'u crynhoi yn adroddiad y Pwyllgor.</p>	
13.	Adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd	
13.1	<p>Cyflwynodd y Cadeirydd bapur a oedd yn nodi'r dull arfaethedig ar gyfer</p> <ol style="list-style-type: none"> cynnal hunanwerthusiad o effeithiolrwydd y Bwrdd ar gyfer adrodd yn natganiad llywodraethu blynyddol 2020-21; a comisiynu gwerthusiad annibynnol allanol o'i effeithiolrwydd yn 2021 i ddilyn arfer da a chyflawni'r ymrwymiad a wnaed i'r Pwyllgor Cyllid. <p>Amlygodd newidiadau a wnaed i'r holiadur hunanwerthuso ac anogodd yr aelodau i gwblhau'r blwch sylwadau ar gyfer pob adran mor llawn â phosibl i ategu ac egluro'r sgôr ac amlygu'r hyn sy'n gweithio'n dda a meysydd ar gyfer gwella.</p>	
13.2	<p>Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo'r cynnig ac fe gytunodd yr aelodau i gwblhau'r hunanasesiad yn unigol erbyn 19 Chwefror 2021.</p>	Pawb
14.	Rhaglen waith y Bwrdd 2020-21	
14.1	<p>Trafododd y Bwrdd ei raglen waith arfaethedig ac fe gytunodd y byddai sesiwn wybodaeth ar ffioedd a chyllid yn cael ei chynnal yn lle'r slot a oedd wedi'i neilltuo ar gyfer trafodaeth strategol yn ei gyfarfod ym mis Mawrth. Byddai'r Cadeirydd yn gweithio gyda Chyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol i bennu cwmpas y sesiwn honno.</p>	Cadeirydd / CGGC
14.2	<p>Nododd y Bwrdd ei fod yn flaenorol wedi bwriadu ystyried sut y gallai aelodau ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol fel rhan o'r strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu. Byddai'r Cadeirydd a Chyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol yn ystyried yr amseriad ar gyfer diweddariad gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol newydd ar gyfer Cyfathrebu a Newid.</p>	Cadeirydd / CGGC
15.	Unrhyw Fater Arall	
15.1	<p>Nid oedd unrhyw fater arall.</p>	
16.	Dyddiad y cyfarfod nesaf	
16.1	<p>Dydd Mercher 17 a dydd Iau 18 Mawrth 2021</p>	